

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.**

**Ail agor ysgolion** – mae'n debygol eich bod yn ymwybodol o gyhoeddiad y Gweinidog Addysg Kirsty Williams heddiw parthed ail agor ysgolion i ddisgyblion y **Cyfnod Sylfaen** ar ôl hanner tymor.

[Neges gan Kirsty Williams ar gyfer y plant](#)



**Cyfnod Sylfaen** - Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y Meithrin, Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2. **Mi fyddwn yn rhannu llythyr gan yr Awdurdod Addysg wythnos nesaf yn nodi'r trefniadau.** Er mwyn hwyluso'r broses o ail groesawi'r disgyblion yn ôl i'r Ysgol, mae'n debygol y bydd rhai blynyddoedd yn ail ddechrau ar wahanol ddiwrnodau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn Chwefror 22ain (rhagor o fanylion i ddilyn)

**Cyfnod Allweddol 2** - Mi fydd y canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn cael ei hadolygu'n genedlaethol ar Chwefror 19eg. Cawn fwy o wybodaeth bryd hynny o safbwynt y cynlluniau ar gyfer Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6.

**Gweithgareddau Teams** - mi fydd ychydig llai o dasgau i bob blwyddyn yr wythnos nesaf. Ceisiwch gwblhau a dychwelyd y tasgau **erbyn nos lau** fel bod modd i'r staff ymateb iddynt cyn y penwythnos.

**Ffrydio byw** – ni fydd cyfnod o ffrydio byw ar gyfer disgyblion y **Cyfnod Sylfaen** ar ddydd Gwener, Chwefror 12fed gan fydd y staff yn cynllunio ar gyfer yr hanner tymor nesaf. Mi fydd ffrydio byw Cyfnod Allweddol 2 yn parhau. Diolch i bawb am ymateb mor gadarnhaol yn ystod y cyfnodau yma.

**Gwyliau Hanner Tymor** – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd Gwener, Chwefror 12fed ac yn ail agor ar ddydd Llun, Chwefror 22ain.

**Gofal Plant** – mae nifer ohonoch yn cymryd mantais o'r gofal plant sydd ar gael yn yr ysgol i blant gweithwyr y rheng flaen. Dyma'r dolenni ar gyfer gwneud cais am le. Mae'r dolenni ar agor tan 1yp bob dydd Mercher. Os oes gennych broblem yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

[https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency\\_Childcare.eb&LANGUAGE=CY](https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb&LANGUAGE=CY)

[https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency\\_Childcare.eb?LANGUAGE=EN](https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb?LANGUAGE=EN)

**Os oes gennych unrhyw bryderon yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Thank you for all your cooperation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.**

**Reopening of schools** - you are probably aware of the announcement by the Education Minister Kirsty Williams today regarding the reopening of schools for the **Foundation Phase** pupils after half term.

[A message for the pupils by Kirsty Williams](#)



**Foundation Phase** - The Foundation Phase covers Nursery, Reception and Years 1 and 2. We will be sharing a letter by the Education Authority next week setting out the arrangements. In order to facilitate the process of welcoming the pupils back to school, it is likely that some years will resume on different days during the week beginning February 22nd (more details to follow)

**Key Stage 2** - The guidance for Key Stage 2 will be reviewed nationally on February 19th. We will then find out more about the plans for Years 3, 4, 5 and 6.

**Teams Activities** - there will be a few less tasks for next week. Try to complete and return the tasks by Thursday evening so that staff can respond to them before the weekend.

**Live streaming** - there will be no live streaming for Foundation Phase pupils on Friday, February 12th as staff plan for the next half term. Key Stage 2 live streaming will continue. I would like to thank everyone for responding so positively during these sessions.

**Half Term Holidays** - the school will close at 3.30 on Friday, February 12th and re-open on Monday, February 22nd.

**Childcare** - many of you have taken advantage of the childcare available at school for the children of frontline workers. Here are the links for applying for a place. Links are open until 1pm every Wednesday. If you have a problem then please contact me at school.

[https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency\\_Childcare.eb&LANGUAGE=CY](https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb&LANGUAGE=CY)

[https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency\\_Childcare.eb?LANGUAGE=EN](https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/Emergency_Childcare.eb?LANGUAGE=EN)

**If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.**